

Y Greadigaeth

Darllen: Eseia 55:12–13

Rwy'n byw ar lan afon Menai, ac felly rwy'n gweld Pont y Borth, campwaith gorchestol Thomas Telford, bob dydd. Ond yr hyn sydd wir yn fy nghyfareddu yw'r afon neu'r culfor ei hun. Un peth arbennig yw grym y lli, yn enwedig pan fo'r llanw i mewn a'r afon yn llifo'n nerthol rhwng colofnau'r bont. Biti na allem harneisio'r rhyferthwy hwn i greu ynni i oleuo a chynhesu ein tai, fel y dechreuodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ei wneud yn ddiweddar ym Mhlas Newydd, ar ochr Sir Fôn i'r afon. Peth arbennig arall am yr olygfa yw'r coed sy'n tyfu'r ochr arall i'r Fenai. Maent yn eu mentyll gwyrddion ddechrau'r gwanwyn, ond bydd y gwyrddni'n raddol ddiflannu a gwychder yr hydref yn ymddangos wrth i'r tymor hwnnw nesáu. Un o'r profiadau mwyaf dyrchafol yw cerdded trwy'r goedwig wrth i'r gwanwyn dorri trwodd – cwrlid o wyn, suran y coed a'r blodyn gwynt i ddechrau, ac yna cynfas las bwtsias y gog wrth i'r gwanwyn ddeffro. Yna'r blagur cynnar, a'r dail ir yn ymddangos, fel sidan y ffawydden a melfed y balalwyfen. Wedyn, blagur cnotiog y dderwen a duwch blagur yr onnen – y rhai olaf i ddeilio, yn arwyddion sicr bod y gwanwyn wedi ymlid ymaith erwinder y gaeaf. A dyddiau gobaith wrth law. Gobaith am ddyddiau gwell. Gobaith yr haf.

Tybed ydyn ni'n gwerthfawrogi'r golygfeydd godidog sydd o'n hamgylch – y mynyddoedd, glannau'r moroedd, y dyffrynnoedd a'r gwastadeddau? Creadigaeth Duw ydi'r cyfan. Ewch am dro i'r goedwig. Defnyddiwch eich synhwyrau. Aroglwch arogleuon y gwanwyn – y dail newydd, ac arogl y goeden ei hun. Cerddwch trwy ddail yr hydref, ac aroglwch yr arogleuon priddlyd sy'n codi o'r dail marw. Gwrandewch ar synau'r gwanwyn a'r hydref – yr adar a'r trychfilod, ac arsyllwch yn fanwl ar braffter y coed o'ch cwmpas. Cymerwch ddeilen yn eich llaw – boed ddeilen ir y gwanwyn a'r haf, neu ddeilen grin yr hydref a'r gaeaf – a sylwch yn fanwl arni. Sylwch ar ei lliw a'i maint. Cyferbynnwch ddwy ochr y ddeilen, gan sylwi ar ansawdd gwahanol yr ochr sy'n wynebu'r

haul a'r ochr arall. Ydi'r ddeilen yn llyfn neu'n arw? Ydi hi'n drwm neu'n ysgafn? Rhowch hi ar eich wyneb neu ar gefn eich llaw. Syllwch yn ofalus ar y gwythiennau sy'n cynnal y ddeilen. Oes yna amherffeithrwydd arni - brychau duon neu frown, neu ryw liw arall? Am funud neu ddwy, cofiwch fod y ddeilen hon yn cynrychioli rhyfeddod creadigaeth Duw. Profwch ddaioni cynhenid byd Duw yn y ddeilen hon, a syllwch ar ei phrydfferthwch gan gofio pwy yw'r Creawdwr a'r Cynhaliwr. Arhoswch am funud i brofi creadigaeth Duw yn y ddeilen syml hon.

Mae'r Beibl yn gyforiog o ddelweddau o goed – o'r sôn am bren y bywyd yn hanes Adda ac Efa, a chedrwydd Lebanon a ddefnyddiwyd i adeiladu teml Solomon, i'r coed sy'n curo dwylo ym mhroffwydoliaeth Esea (55:12). Mae'n bur debyg bod gan Iesu berthynas gynnes ac agos â choed, gan iddo ddysgu crefft y saer gan ei dad. Ac mae'n ddiddorol sylwi fod coed wedi chwarae rhan allweddol yn ei fywyd o'r dechrau i'r diwedd. Fe'i rhoddwyd i orwedd mewn preseb wedi iddo gael ei eni ym Methlehem Jwdea, a bu farw ar groesbren ar Golgotha. A rhwng y ddau begwn hyn bu'n cynorthwyo ei dad yn y gweithdy, ac wedi i'w dad farw Iesu ei hun oedd y saer yn Nasareth.

Myfyrdod pellach:

Oni ddylen ni o dro i dro fynd allan i ganol creadigaeth Duw i'w addoli?

Ydi Duw yn dal i greu?